

Adroddiad am yr Ymgynghoriad

Gerddi Despenser - Gwelliannau Teithio Llesol

Rhif prosiect: CO19168

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 11/11/2020 a 04/12/2020. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd. Nod y prosiect yw creu amgylchedd priffyrdd mwy diogel trwy leihau cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau i gerddwyr. Bydd y gwelliannau hyn o fudd i gerddwyr ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer teithio llesol.

Ystyr **teithio llesol** yw cerdded a beicio yn hytrach na defnyddio cerbydau at ddibenion teithio bob dydd.

Gwaith arfaethedig:

- Adeiladu croesfannau sebra cyfochrog dyrchafedig ar Heol y Gadeirlan Isaf, Neville Street a Despenser Street yn agos at y gylchfan.
- Mae'r groesfan sebra bresennol ar Clare Street yn cael ei symud a'i hadleoli i'r gogledd o'i lleoliad presennol, ac mae croesfan sebra gyfochrog ychwanegol yn cael ei chyflwyno ar Clare Street.
- Adeiladu croesfan sebra gyfochrog ddyrchafedig ar Neville Street yn agos at y gyffordd â Rawden Place.

Bydd y mesurau yn creu amgylchedd mwy diogel i gerddwyr a beicwyr, yn enwedig i ddefnyddwyr bregus ar y ffyrdd a byddant yn gwella hygyrchedd i ganol y ddinas.

Rydym yn gwneud cais am arian gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun.

O'r 270 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy, derbyniwyd 22 ymateb unigol.

- 12 - O blaid y cynllun; rhoddwyd rhai sylwadau/awgrymiadau ychwanegol
- 9 - Yn anghytuno â'r cynigion Roedd y rhan fwyaf o'r gwrthwynebiadau hyn yn ymwneud â'r bwriad i gau Neville Place.
- 1 - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Crynoir y pryderon a'r sylwadau isod mewn ysgrifen *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod bwriedir bwrw ymlaen i roi'r cynllun ar waith yn unol â'r amlinelliad yn y cynllun ymgynghori.

Materion yn ymwneud â gwaith peirianyddol ychwanegol y gofynnwyd amdano ar gyfer y cynllun.

"Ychwanegwch hidlydd Moddol ar gyfer Machen Place i Wyndham Street. Bydd hyn yn gofyn am symud y blwch cyfathrebu."

"Yn olaf, rwy'n gwybod bod ymgynghoriad wedi bod ar gael hangars beics yng Nghaerdydd a fyddai'n anhygoel - byddwn yn awgrymu y byddai rhai ar ddiwedd Rawden a De Burgh Place (lle bydd palmentydd yn arddull yr Iseldiroedd yn cael eu rhoi ar waith) yn gwneud llawer o synnwyr (yn ogystal ag mewn manau eraill wrth gwrs)."

Nid yw hangars beics (llefydd i gysgodi a storio beiciau) nac unrhyw fath arall ar storfa feiciau yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Bydd y cynllun arfaethedig hwn yn cael ei weithredu gan ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n bosibl i'r arian gael ei ddefnyddio at ddibenion eraill.

Fodd bynnag, bydd y lleoliadau hyn yn cael eu hadolygu ac mae'n bosibl y gellid ystyried unrhyw welliannau pellach fel rhan o brosiect yn y dyfodol.

Materion yn ymwneud â'r croesfannau cyfochrog.

"Fy unig bryder yw nad yw'n glir sut y disgwylir i rywun sy'n beicio o'r Gogledd ar Heol y Gadeirlan Isaf ymuno â'r llwybr beicio grisiog heb wneud tro 90 gradd ar y groesfan gyfochrog, a'r un peth wrth fynd oddi ar y llwybr beicio i'r ffordd. Mae'r un broblem yn bodoli wrth feicio i/o Despenser Street. Rwy'n tybio bod beicwyr i fod i ddefnyddio'r groesfan gyfochrog ar gyfer ymuno â/gadael y llwybr grisiog?"

Caniateir y groesfan sebra gyfochrog ddyrchafedig dan y Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig (RhCCAT) diwygiedig ac mae'n nodwedd ddylunio safonol yng Nghanllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Nid oes rhaid i feicwyr ddod oddi ar eu beiciau i ddefnyddio'r groesfan.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i feiciwr ddefnyddio'r groesfan sebra yn yr un modd â cherddwr a dim ond pan fydd yn ddiogel gwneud hynny y dylai groesi'r ffordd. Mater i'r cerddwyr neu'r beicwyr yw croesi'r ffordd pan fydd unrhyw gerbydau sy'n agosáu wedi dod i stop llwyr. Penderfyniad i'r defnyddiwr unigol yw hwn.

Wrth deithio o'r Gogledd gallwch ymuno â'r lôn feicio ar ôl y groesfan gyfochrog ar Heol y Gadeirlan Isaf ac yna defnyddio'r groesfan gyfochrog ar Despenser Street i groesi'r ffordd pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, ac ail-ymuno â'r llwybr

beiciau.

Materion yn ymwneud â thynnu coed.

"Ar y llun mae rhai coed wedi pylu - beth mae'r rhain yn ei olygu ac a yw'n golygu mai'r cynnig yw tynnu'r 4 goeden honno o'r ardal? Os felly, faint o goed fydd yn cael eu plannu mewn lle tebyg i gymryd lle'r rheini?"

Nid oes unrhyw gynigion i dynnu unrhyw goed yn y cynllun hwn.

Materion yn ymwneud â gorfodi 20mya.

"A oes cynllun i helpu gyda gorfodi cyfyngiadau cyflymder? Mae'n 20mya ond mae ceir yn mynd mor gyflym - fel mam gyda phlentyn bach gall fod yn eithaf brawychus, ac rwy'n gwybod bod llawer o rieni eraill o amgylch yr ardal a fyddai'n gwerthfawrogi'n fawr pe bai'r ceir yn glynu wrth y cyfyngiad cyflymder yr holl ffordd i fyny Neville Street"

Mae gorfodi cyflymder yn fater i'r Heddlu ac nid oes gan y Cyngor rymoedd i'r perwyl hwnnw. Yng Nghymru, Gan Bwyll sy'n ymwneud â gorfodaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar eu gwefan yn <https://gosafe.org/?lang=cy> Gellir gwneud ceisiadau am orfodaeth yn sgil 'pryder cymunedol'.

Byddai gweithredu'r croesfannau sebra cyfochrog dyrchafedig newydd o fewn y cynllun yn helpu i arafu cerbydau o fewn yr ardal.

Materion yn ymwneud â chroesfannau sebra dyrchafedig.

"Allwch chi wneud yn siŵr bod y croesfannau sebra, yn enwedig yr un rhwng y parciau, yn cael eu dyrchafu'n uchel iawn fel y rhai ar Lawrenny Avenue i arafu traffig?"

"A ellir lledu'r groesfan sebra (yn hytrach na'r lled safonol) i alluogi pawb i'w defnyddio - yn aml gosodir un ar wahân ar gyfer beiciau nesaf at un llydan i adael lle ar gyfer cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd, plant ar sgwteri, pramiau a bygis ac ati."

Bydd dyluniad yr holl groesfannau sebra cyfochrog dyrchafedig yn y cynllun hwn yn cynnwys graddiannau esgynfa o 1/14, gyda hyd gwastad o 6m ac uchder esgynfa o 75mm. Dylai hyn arwain at esgynfa sy'n effeithiol o ran arafu cerbydau ac, os gyrrir drosto ar gyflymder priodol, ni ddylai achosi anghysur i deithwyr mewn cerbydau na beicwyr.

Mae dyluniad yr holl groesfannau sebra cyfochrog dyrchafedig yn y cynllun hwn yn 6.2m o led. Mae hyn yn cynnwys yr ardal groesi i feicwyr.

Materion yn ymwneud â'r gerddi glaw.

"Yr unig bryder sydd gen i yw ar dud. 8 o'r ddogfen lle mae'r gerddi glaw yn mynd reit i fyny at ddechrau'r groesfan sebra. Dydwi i ddim yn siŵr pa mor uchel rydych chi'n rhagweld y bydd y planhigion yn yr ardaloedd hyn yn tyfu, ond byddwn yn ofalus nad ydynt yn cuddio golwg y gyrrwyr sy'n nesáu at y groesfan,"

Bydd gan y gerddi glaw blanhigion sy'n tyfu'n isel felly ni fydd hyn yn effeithio ar y gwelededd.

Gerddi wedi'u plannu gydag amrywiaeth o rywogaethau yw'r gerddi glaw, ac mae'r planhigion yn cyflawni sawl swyddogaeth allweddol; yn dal ac yn glanhau dŵr glaw a dŵr wyneb sy'n rhedeg drwyddo.

Materion yn ymwneud â'r groesfan ychwanegol.

"Dydw i ddim yn meddwl bod angen ail groesfan sebra wrth gyffordd Clare St, Tudor St ac ati pan fod gennych oleuadau yno'n barod,"

Cynhaliwyd arolygon 'tarddiad a chyrchfan' cerddwyr. Cofnododd y canlyniadau nifer o gerddwyr yn croesi'r ffordd ar safle arfaethedig yr 'ail groesfan sebra' yng Ngerddi Dispenser ac ystyrir bod gosod y groesfan yn yr hyn a elwir yn 'llinell ddymunol' o'r pwys mwyaf i ddarparu lle diogel i groesi'r ffordd.

Materion yn ymwneud â cholli manau parcio.

"Y croesfannau sebra ar Neville Street a Gerddi Dispenser - faint o fannau parcio fydd yn cael eu colli?"

"Rwy'n teimlo y bydd ychwanegu croesfan sebra'n lleihau'r parcio hyd yn oed yn fwy ac yn ychwanegu at y problemau tagfeydd oherwydd bod ceir yn stopio wrth y groesfan sebra"

"Rwy'n teimlo bod gennym eisoes sefyllfa barcio gyfyngedig iawn ynghyd â'r lôn feicio a grëwyd yn amhriodol iawn."

Bydd dau fan parcio preswyl ar Neville Street yn cael eu colli. Mae'r manau parcio i breswylwyr ar ochr dde-ddwyreiniol Neville Street yn cael eu hystyngtu yn gynhwys un man parcio ychwanegol i breswylwyr.

Bydd tri man aros cyfyngedig a thri man parcio i breswylwyr ar Clare Street yn cael eu colli. Mae tri man parcio i breswylwyr yn cael eu hychwanegu at Clare Street, 5m i'r gogledd o Clare Place sy'n mesur 18m o hyd.

Bydd dau fan aros cyfyngedig ar Heol y Gadeirlan Isaf hefyd yn cael eu colli.

Mae dau fan parcio i breswylwyr ger y gylchfan ar Dispenser Street yn cael eu hadleoli i'r dwyrain o Dispenser Street.

Bydd y newidiadau i'r cyfyngiadau parcio yn destun proses Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT) ar wahân. Bydd cyfle i breswylwyr roi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r cyfyngiadau parcio fel rhan o'r broses GRhT.

Nod y cynllun yw ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel i bobl symud o fewn cymunedau ac mae wedi'i anelu'n benodol at ddulliau cynaliadwy o deithio megis cerdded, beicio a gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Bwriedir i'r cynllun hwn hefyd gynorthwyo cerddwyr sy'n agored i niwed fel plant, yr henoed a phobl anabl.

Materion yn ymwneud â'r lonydd beicio presennol a lonydd beicio arfaethedig.

"A ellir gwneud rhywbeth am y lonydd beicio hurt, erchyll a pheryglus ar Neville Street nad oes unrhyw feiciwr yn eu defnyddio neu'n gallu eu defnyddio..."

"A fydd y llwybrau beicio sy'n cael eu hadeiladu o leiaf 2.5 metr i sicrhau digon o le i feicwyr? A beth sy'n digwydd i'r llwybr beicio ymhellach i lawr y ffordd - sut mae'n cysylltu â'r rhai presennol ar Neville Street?"

"A all y lonydd beicio ar Neville St sy'n beryglus ac nad ydynt yn cael eu defnyddio gael eu diddymu? Mae bysiau plygu a choetsys National Express yn mynd i lawr yno ac mae'n rhaid i geir symud o'u ffordd wrth iddynt yrru i'w hochr,"

"Parhewch â'r llwybrau beicio arfaethedig ychydig o fetrau ychwanegol i'r groesfan feicio newydd yn Heol y Gadeirlan Isaf."

"A yw'n synhwyrol cyfarwyddo beicwyr i feicio i fyny Neville Street (gan gysylltu â Wellington St a Leckwith Rd a'r llwybr at Lwybr Elái a Heol Ddwyreiniol y Bont-faen. Llwybr gwell yw'r strydoedd tawel i Wellington St."

Mae ein Map Rhwydwaith Integredig (MRhI) yn gynllun 15 mlynedd i flaenoriaethu gwelliannau ar gyfer cerdded a beicio a gellir ei weld ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/teithiollesol.

Mae'r angen am lwybr beicio ar Neville Street wedi'i amlygu ar yr MRhI. Mae'r lonydd beicio presennol ar Neville Street o safon is ac ymchwilir iddynt ar gyfer gwelliannau, ond byddai'n anodd datblygu llwybr ar wahân ar Neville Street oherwydd culni'r lôn gerbydau bresennol.

Mae llwybrau beicio bellach yn cael eu datblygu gan ddefnyddio Canllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y Beicffyrdd ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/beicffyrdd.

Materion yn ymwneud â chau Neville Place.

"Bydd hyn yn cynyddu tagfeydd a llygredd ar De Burgh Street"
"Gallaf weld eich bod yn bwriadu atal cerbydau rhag cael mynediad i Neville Place, felly sut mae pobl i gael mynediad i'r garej? Hefyd mae'n anodd gyrru yng Ngerddi Clare gyda cheir wedi'u parcio ar y naill ochr a'r llall i'r ffordd. Mae'n amhosib i geir yrru i'r ddau gyfeiriad, ac os ydych chi'n gyrru o'r brif ffordd mae'n amhosibl gyrru am yn ôl heb achosi damwain, ac nid yw bob amser yn bosibl i'r gyrrwr arall gefnu os oes car y tu ôl iddo. Felly, wrth gau Neville Place, bydd hyd yn oed yn anoddach, felly sut ydych chi'n bwriadu unioni hyn?"

"Hoffwn wrthwynebu cau Neville Place, rwy'n byw yn Gloucester St. ac mae fy mam yn byw yn De Burgh St ac mae'r ddau ohonom yn gwrthwynebu hyn. Bydd yn achosi mwy o draffig a thagfeydd i lawr y strydoedd hyn ac mae'n bryder mawr gan fod gennym blant fel sydd gan llawer o breswylwyr eraill."

"Rwy'n ysgrifennu i wrthwynebu codi rhwystr ar Neville Place. Bydd y strydoedd cyfagos yn denu traffig gan eu gwneud yn beryglus iawn i blant sy'n teithio i'r ysgol ac i'r mosg yn enwedig yn ystod oriau brig."

"Bydd cau Neville Place yn hunllef, bydd yn arwain at fwy o draffig ar De Burgh St a Gloucester St a chânt eu defnyddio fel strydoedd i geir fynd yn gyflym ar eu hyd. Bydd unrhyw gerbydau fydd am gyrraedd Machen Place, Gerddi Clare a Neville Place yn methu gwneud hynny'n uniongyrchol, heb anghofio bod gennych 2 sefydliad hwyr yno sydd â cherbyd mawr"

"Hoffwn wrthwynebu yn y modd cryfaf posibl yn erbyn cau Neville Place."

"Nid wyf yn cytuno â chau Neville Place i draffig modur

"Rwy am wrthwynebu cau Neville Place yn y cynllun hwn. Does neb am i hyn ddigwydd. Bydd yn achosi problemau mawr ar strydoedd lle mae plant a busnesau."

"Rwy'n gobeithio y byddwch yn addasu'r cynllun i ystyried bod preswylwyr yn dymuno gweld Neville Place yn cael ei gadw ar agor i gerbydau modur."

Mae ein tîm dylunio a chynghorwyr ward wedi adolygu'r cynnig hwn ac mae'r penderfyniad wedi'i wneud i gynnal y ffordd unffordd i mewn i Neville Place a ffordd unffordd newydd allan o Erddi Clare.

Bydd cyflwyno ffordd unffordd ar Erddi Clare yn destun proses Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT) ar wahân, a bydd cyfle i breswylwyr roi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig fel rhan o'r broses GRhT.

Materion yn ymwneud â beicio ar y troedffyrdd.

"Er nad ydym yn siŵr y bydd yn "ddiogel" i feicwyr droi i'r dde allan o Erddi Clare gan y bydd y feicffordd risiog yn atal croesi'r ffordd, rydym yn amau y bydd pobl yn beicio ar y palmant i groesi'r ffordd wrth y groesfan fwyaf deheuol i gyrraedd Taith Taf tra'n "dilyn y rheolau" a throi i'r chwith i feicio tuag at Heol y Gadeirlan."

Bydd beicwyr yn gallu ymuno â'r trac beicio wrth gyffordd Gerddi Clare ac yna croesi'r ffordd wrth y groesfan sebra gyfochrog newydd i ail-ymuno â'r trac beicio tua'r de.

Cefnogaeth i'r cynllun

"Mae'r ymgynghoriad ar gyfer Gerddi Despenser yn ymddangos yn welliant ar y cyfan."

"Rydym yn croesawu'r buddsoddiad hwn yng Ngerddi Despenser ac yn gobeithio y gall ein sylwadau fod o gymorth wrth ddatblygu'r cynllun i flaenoriaethu cerddwyr a defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed a chreu amgylchedd iach o ansawdd uchel i bawb."

"Rwy'n croesawu'r cynigion ar gyfer Gerddi Despenser, yn enwedig y croesfannau newydd i gerddwyr ar Despenser Street a Neville Street."

"Rwy'n cefnogi'r cynnig yn gyffredinol i wella beicio a chroesfan i gerddwyr wrth y gyffordd hon."

"Mae'r cynllun hwn wedi creu argraff fawr arnaf. Bydd yn helpu i alluogi mwy o bobl i lywio'r gyffordd heb ofni cael eu taro gan geir a cherbydau eraill, a dylai hyn annog mwy o gerdded a beicio yn yr ardal!"

"Rwyf wrth fy modd yn gweld y papur ymgynghori! Mae cymaint ei angen, ac roeddwn wrth fy modd o weld y papur yn adlewyrchu'r angen i wneud yr amgylchedd o amgylch Gerddi Despenser yn well i holl ddefnyddwyr y gofod. Felly diolch i chi am hynny!"

"Yn gyffredinol yn hapus gyda'r cynigion"

"Rydym yn gyffredinol o blaid y cynllun"

"Rwyf wrth fy modd yn gweld Caerdydd yn bwrw ymlaen â dylunio trefol blaengar ac rwy'n siŵr y bydd yn parhau i arwain y wlad yn hyn o beth yn y blynyddoedd i ddod."

"Unwaith eto, rwyf am ailadrodd fy nghefnogaeth i unrhyw ymdrechion i wneud yr ardal yn well i'r gymuned."